# Gweithdrefn Addasrwydd Cyn-droseddwyr ar gyfer Cyflogaeth

## 1 Cwmpas a Diben y Weithdrefn

1.1 Bydd y weithdrefn hon yn berthasol i bob cyflogai a darpar gyflogai.

1.2 A ninnau'n sefydliad sy'n asesu pa mor gymwys yw ymgeiswyr ar gyfer swyddi a fydd wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) gan ddefnyddio gwiriadau cofnodion troseddol wedi'u prosesu drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), bydd y Coleg yn cydymffurfio'n llwyr â Chod Ymarfer y GDG ac yn ymrwymedig i drin pob ymgeisydd ar gyfer swyddi yn deg.

## 2 Datganiadau'r Weithdrefn

2.1 Mae'r Coleg yn ymrwymedig i drin ei staff, darpar staff neu ddefnyddwyr ei wasanaethau yn deg beth bynnag fydd eu hil, rhywedd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, mamolaeth /beichiogrwydd, statws priodasol, cyfrifoldebau dros ddibynyddion, oedran, anabledd neu gefndir troseddol.

2.2 Ni fydd y Coleg yn gwahaniaethu'n annheg yn erbyn unrhyw un a fydd yn destun gwiriad cofnodion troseddol ar sail euogfarn neu unrhyw wybodaeth arall a ddatgelir.

2.3 Ni chaiff y Coleg ofyn i unigolyn ond am euogfarnau a rhybuddion a fydd heb eu gwarchod.

2.4 Mae'r weithdrefn hon ar gael i bob ymgeisydd GDG.

2.5 Mae'n ofynnol bod pob corff cofrestredig yn trin ymgeiswyr GDG sydd â chofnod troseddol yn deg ac na fyddan nhw'n gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd euogfarn neu unrhyw wybodaeth arall a ddatgelir.

2.6 Ni all y Coleg ofyn i unigolyn roi manylion euogfarnau a rhybuddion heblaw'r rhai y bydd hawl gyfreithiol gan y Coleg i wybod amdanynt. Lle y gellir gofyn yn gyfreithiol am dystysgrif GDG ar lefel safonol neu fanwl (lle y bydd y swydd yn un a fydd wedi'i chynnwys yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) fel y'i diwygiwyd a, lle y bydd yn briodol, Reoliadau Deddf yr Heddlu fel y'i diwygiwyd.

2.7 Mae'r Coleg yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn weithredol i bawb a fydd â'r cyfuniad iawn o dalent, sgiliau a photensial ac yn croesawu ceisiadau oddi wrth ystod eang o ymgeiswyr, gan gynnwys y rheiny a fydd â chofnod troseddol.

2.8 Bydd y Coleg yn dewis pob ymgeisydd ar gyfer cyfweliad ar sail eu sgiliau, eu cymwysterau a'u profiad.

2.9 Ni wneir cais am wiriad cofnod troseddol i'r GDG ond wedi i asesiad risg trylwyr ddangos bod un yn gymesur ac yn berthnasol i'r swydd dan sylw. Ar gyfer y swyddi hynny lle yr ystyrir bod gwiriad cofnodion troseddol yn angenrheidiol, bydd pob ffurflen gais, hysbyseb am swydd a briffiau recriwtio yn cynnwys datganiad a fydd yn dangos y caiff cais am dystysgrif GDG ei gyflwyno os caiff yr unigolyn y swydd.

2.10 Bydd y Coleg yn sicrhau y bydd pawb a fydd yn gysyltiedig â'r broses recriwtio wedi'u hyfforddi'n briodol i gael adnabod ac asesu perthnasedd ac amgylchiadau troseddau.

2.11 Bydd y Coleg hefyd yn sicrhau iddyn nhw dderbyn canllawiau deddfwriaeth priodol yn gysylltiedig â chyflogi cyn-droseddwyr, e.e. Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.

2.12 Bydd y Coleg mewn cyfweliad neu mewn trafodaeth ar wahân yn sicrhau y ceir trafodaeth agored a phwyllog yn ymwneud ag unrhyw droseddau neu unrhyw fater a allai fod yn berthnasol i'r swydd. Gallai methu datgelu gwybodaeth a fydd yn berthnasol yn uniongyrchol i'r swydd y gwnaed cais amdani, arwain at gynnig swydd yn cael ei dynnu nôl.

2.13 Bydd y Coleg yn sicrhau y pydd pob un a fydd yn destun Gwiriad cofnodion troseddol a gyflwynwyd i'r GDG yn ymwybodol bod cod ymarfer y GDG yn bod, ac y bydd copi ar gael ar gais.

2.14 Bydd y Coleg yn ymrwymedig i drafod unrhyw fater a ddatgelir ar dystysgrif GDG gyda'r unigolyn a fydd yn ceisio'r swydd cyn dileu cynnig amodol o waith.

## 3 Canllawiau ar asesu risg cyflogi cyn-droseddwyr

3.1 Gwahardd yn awtomatig rhag cael gwaith

3.1.1 O dan Ddeddf Amddiffyn Plant 1999 a Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000, mae'n anghyfreithlon i'r Coleg gyflogi pobl, ni waeth beth fydd yr amgylchiadau lliniarol, a fydd yn ymgymryd â gweithgaredd rheoledig ac a fydd â chyswllt â phlant yn rheolaidd neu a allai fod yn darparu gofal personol i oedolion o fyfyrwyr agored i niwed; acx sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr a gedwir gan y GDG o bobl y'u bernir yn anaddas i gael gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed lle y bydd hynny'n briodol. Bydd bod yn anaddas yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i euogfarnau blaenorol.

3.1.2 Felly ni fydd y Coleg yn cyflogi pobl a fydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant neu, lle y bydd hynny'n briodol, gydag oedolion agored i niwed am y rhesymau a nodir uchod.

3.1.3 Polisi arferol y Coleg yw ystyried bod cyflogi pobl a allai fod yn cysylltu'n rheolaidd â phlant neu oedolion agored i niwed yn risg uchel os ydyn nhw wedi'u cael yn euog ar unrhyw bryd o'r troseddau canlynol yn erbyn plant neu oedolion:

- llofruddiaeth
- dynladdiad
- trais rhywiol
- troseddau rhywiol difrifol eraill
- anaf corfforol difrifol
- a/neu gweithredoedd treisiol difrifol eraill
- troseddau difrifol yn ymwneud â chyffuriau dosbarth A
- lladrad/bwrgleriaeth/dwyn
- twyll

## 4 Canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau

4.1 Ar wahân i'r achosion sydd wedi'u cynnwys ym mharagraff 3.1, ni ddylai bod â chofnod troseddol atal pobl yn awtomatig rhag cael eu cyflogi. Bydd gofyn i gyflogwyr ystyried a yw'r 'euogfarn neu unrhyw fater a ddatgelir yn berthnasol i'r swydd dan sylw'. Bydd rhaid i gyflogwyr edrych ar y swydd a'r person a phwyso a mesur a oes risg i'r defnyddwyr gwasanaethau yn erbyn rhagofalon dulliau diogelu posib. Y ddyletswydd flaenaf yw diogelwch ein plant ac oedolion agored i niwed. Gellir chwilio am arweiniad oddi wrth y tîm Adnoddau Dynol.

4.2 Defnyddir y ddogfen Asesu Risg (Atodiad 1) er mwyn rhoi arweiniad i wneuthurwyr penderfyniadau ac er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau yn gyson. Bydd y Rheolwr Recriwtio a'r Ymgynghorydd AD yn cwblhau'r Asesiad Risg a gwneir penderfyniad gan y Tîm Rheoli Uwch a Phennaeth AD. Mae'n bosib y bydd gofyn i'r darpar gyflogai ddod i gyfarfod cyn y cymerir penderfyniad terfynol i gael trafod manylion yr Asesiad Risg a natur y troseddau ymhellach.

4.3 Wedi i'r penderfyniad gael ei wneud, caiff y darpar gyflogai wybod am y canlyniad. Lle y caiff cynnig swydd ei gadarnhau, caiff yr Asesiad Risg ei storio yn ffolder AD y cyflogai yn ystod cyfnod y cyflogaeth gyda'r Coleg a chaiff ei ddistrywio yn unol â'r gweithdrefnau diogelu data safonol wedi i'r cyflogai adael y Coleg.

4.4 Er nad yw'r rhestr yn holl-gynhwysol, gellir defnyddio'r enghreifftiau canlynol i helpu i gynnal yr asesiad risg:

- Troseddau rhywiol yn erbyn plentyn: ni ddylid cynnig swydd.

- Troseddau rhywiol eraill – yr amgylchiadau, oedran yr euogfarn, y math o swydd y bydd y darpar gyflogai yn mynd i'w wneud a'r dyletswyddau penodol a'r grŵp o gleientiaid y bydd e/hi'n gweithio gyda nhw: os bydd unrhyw amheuaeth, ni ddylid cynnig swydd.

- Troseddau treisgar difrifol diweddar a chyflenwi cyffuriau, neu batrwm diweddar o fod â chyffuriau ym meddiant y darpar gyflogai: fel arfer ni fydd swydd yn cael ei gynnig.

- Bod un waith â chanabis ym meddiant y darpar gyflogai, yn enwedig rai blynyddoedd yn ôl: gellid cynnig swydd.

- Caiff unrhyw euogfarnau am ddwyn, twyll, difrod troseddol ac ati, eu cymryd yn fwy difrifol os bydd mynediad gan y person i arian, cyfarpar neu eiddo: gellid cynnig swydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau a pha mor hen fyddai'r euogfarn.

- Sawl trosedd yfed a gyrru a throseddau gyrru eraill lle y bydd gyrru/hebrwng plant neu oedolion agored i niwed yn ofynnol ar gyfer y swydd: gellid cynnig swydd.

- Un drosedd yfed a gyrru a throsedd gyrru arall lle y bydd gyrru/hebrwng plant neu oedolion agored i niwed yn ofynnol ar gyfer y swydd a lle y bydd y swyddog penodi yn hapus nad yw mwyach yn broblem: gellid cynnig swydd.

- Un mân drosedd dreisgar neu fân droseddau eraill y gellir eu hesbonio (er enghraifft pan oedd unigolyn yn berson ifanc a gall ddangos cyfnod sylweddol o fod o gymeriad da oddi ar i'r digwyddiad(au) ddigwydd): yn yr achosion hyn, cynigir swydd fel arfer ond bydd yn dibynnu ar natur y swydd, oedran y darpar gyflogai ar y pryd, ac agwedd yr unigolyn tuag at y troseddau.

**Polisïau Cysylltiedig**
Polisi Recriwtio
Gweithdrefn GDG
Gweithdrefn Trin Gwybodaeth GDG mewn ffordd ddiogel

**Lleoliad a mynediad i'r weithdrefn**
Bydd hyn ar gael oddi ar fewnrwyd y staff; gallai copi wedi'i argraffu ar bapur fod wedi dyddio.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad cymeradwyo:** | Chwefror 2020 | **Rheolwr Cyfrifol:** | Pennaeth Gweithrediadau AD |
| **Cymeradwywyd gan:** | Tîm Gweithredol | **Arweinydd Gweithredol:** | Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu |
| **Dyddiad adolygu:** | Chwefror 2021 | **Ar gael i'r Myfyrwyr:** | Nac ydyw |

## Atodiad 1 - ASESU RISG GWIRIAD GDG

***Gellir defnyddio'r ffurflen hon i gynorthwyo'r Coleg i asesu a chofnodi risgiau gadael i rywun ddechrau gweithio lle y bydd tystysgrif GDG yn dangos euogfarnau perthnasol neu wybodaeth berthnasol arall neu cyn y derbyniwyd gwiriad GDG (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd).***

*Cyfrifoldeb y rheolwr penodi neu'r rheolwr llinell yn ôl fel y bydd hynny'n briodol fydd cwblhau'r ffurflen asesu risg hon. Rhaid i'r Prif Lofnodydd ei hawdurdodi **cyn** y gall y person ddechrau gweithio neu barhau i weithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed.*

*Bydd rhaid rhoi'r ffurflen asesu risg gyflawn ar ffeil bersonél yr unigolyn yn yr adran AD a rhaid iddi fod ar gael i arolygiad Archwilio, Diogelu ac i arolygiadau eraill.*

*Mewn **amgylchiadau eithriadol**, caiff staff a fydd yn gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed heb wiriad manwl clir GDG wneud hynny os byddan nhw'n cael eu goruchwylio'n agos (o fewn sŵn a chlyw rhywun â gwiriad GDG clir).*

***Fel arfer, ni chaniateir hyn ond pan fyddai gadael iddyn nhw beidio â gweithio yn aflonyddu gofal plant ac oedolion agored i niwed; e.e. lle y bydd bod â chymhareb staff : plant neu oedolion agored i niwed yn ofyniad rheoliadol. Ni fydd pobl yn gallu gweithio yn yr amgylchiadau hyn oni bydd y canlynol yn berthnasol:***

- *Bydd y penodiad yn angenrheidiol er mwyn galluogi'r ddarpariaeth gwasanaeth i barhau.*
- *Yn achos plant, bydd tystysgrif GDG manwl gan y person a roddwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan gorff arall a bydd y person yn rhoi'r dystysgrif GDG fanwl wreiddiol i'r rheolwr a fydd yn penodi, yn dystiolaeth.*
- *Bydd y Coleg wedi gwneud cais am wiriad manwl y GDG.*
- *Nid oes dim cyswllt heb oruchwyliaeth gyda phlant neu oedolion agored i niwed.*
- *Ni fydd dim mynediad ganddyn nhw i gofnodion sensitif, yn enwedig i wybodaeth am blant unigol neu oedolion unigol agored i niwed.*
- *Bydd yr asesiad risg a'r cynllun rheoli risg wedi'u cwblhau a'u llofnodi gan y Prif Lofnodydd.*

***Oherwydd y risgiau uchel, ni fydd pobl a benodwyd i weithio mewn sefyllfaoedd un-i-un neu mewn gofal preswyl neu amgylchedd tebyg, yn cael dechrau gweithio hyd nes y derbynnir tystysgrif GDG newydd.***

***Ffurflen Asesu Risg Gwiriad GDG***

***RHAN 1 – I'W CHWBLHAU GAN YR YMGEISYDD***

*Cafodd eich tystysgrif GDG ei dychwelyd â gwybodaeth ar y dystysgrif a allai fod yn berthnasol i'ch cyflogaeth. Ni fydd y wybodaeth hon o raid yn eich atal rhag gweithio gyda Choleg Caerdydd a'r Fro, ond bydd hyn yn dibynnu ar natur y swydd rydych yn gwneud cais amdani a'ch amgylchiadau adeg y digwyddiad neu'r drosedd. Felly, hoffem roi'r cyfle i chi roi esboniad am y digwyddiad neu'r drosedd, yn ogystal â'ch amgylchiadau ar y pryd. Rydym am wybod pwy oedd yn rhan o'r digwyddiad neu'r drosedd, pryd y digwyddodd, beth ddigwyddodd, ble cafodd ei gyflawni a pham gafodd ei gyflawni.*

*Cwblhewch y wybodaeth ganlynol. Dylech fod yn ymwybodol bod cadw gwybodaeth nôl neu roi gwybodaeth anwir yn cael ei ystyried yn ymgais i ffugio cofnodion sy'n enghraifft o gamymddwyn difrifol ac y bydd, os caiff ei brofi, yn arwain at golli swydd o dan weithdrefnau'r Coleg.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw:** | | **Dyddiad Geni:** | |
| **Swydd y gwneir cais amdani:** | | **Lleoliad:** | |

| |
|---|
| **Trosedd neu Ddigwyddiad 1:** |
| **Dyddiad y Drosedd neu'r Digwyddiad:** |
| **Bydd angen i ni wybod pwy oedd yn rhan o'r digwyddiad neu'r drosedd, pryd y digwyddodd, beth ddigwyddodd, ble y cafodd ei gyflawni a pham y cafodd ei gyflawni. Rhaid esbonio hefyd sut rydych chi'r ymgeisydd yn teimlo nawr am y digwyddiad neu'r drosedd.** |

| Trosedd neu Ddigwyddiad 2: |
|---|
| **Dyddiad y Drosedd neu'r Digwyddiad:** |
| **Bydd angen i ni wybod pwy oedd yn rhan o'r digwyddiad neu'r drosedd, pryd y digwyddodd, beth ddigwyddodd, ble y cafodd ei gyflawni a pham y cafodd ei gyflawni. Rhaid esbonio hefyd sut rydych chi'r ymgeisydd yn teimlo nawr am y digwyddiad neu'r drosedd.** |

| Trosedd neu Ddigwyddiad 3: |
|---|
| **Dyddiad y Drosedd neu'r Digwyddiad:** |
| **Bydd angen i ni wybod pwy oedd yn rhan o'r digwyddiad neu'r drosedd, pryd y digwyddodd, beth ddigwyddodd, ble y cafodd ei gyflawni a pham y cafodd ei gyflawni. Rhaid esbonio hefyd sut rydych chi'r ymgeisydd yn teimlo nawr am y digwyddiad neu'r drosedd.** |

***Datganiad gan yr Ymgeisydd***

*Rwyf yn ardystio bod y wybodaeth rwyf wedi'i rhoi ar y ddogfen yn wir ac yn gyflawn. Rwyf yn deall y bydd gwneud datganiad anwir neu adael gwybodaeth allan yn golygu y bydd fy nghais am swydd neu i wirfoddoli yn aflwyddiannus neu, os byddaf wedi fy nghyflogi, y byddaf o bosib yn wynebu diswyddiad neu gamau disgyblu eraill.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod:** | | **Enw (prif lythrennau):** | |

***RHAN 2 – I'w chwblhau gan Ymgynghorydd AD***

**A. ASESU'R RISGIAU**

| **Cwestiwn** | **Perthnasol**<br><br>**(Dileu yn ôl fel y bydd yn briodol)** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| **A wnaeth yr ymgeisydd ddatgelu'r materion ar ffurflen gais y GDG a/neu ffurflen gais yr OCC?** | Os do, rhowch y rheswm | |
| **A yw'r unigolyn yn cytuno bod y wybodaeth fanwl a roddir ar Dystysgrif y GDG yn gywir?** | Os nad yw, beth mae'r unigolyn yn meddwl sy'n anghywir a pham? | |
| **A oedd unrhyw droseddau yn gysylltiedig â gwaith neu wedi'u cyflawni o fewn cyd-destun lleoliad gwaith?** | Os oedd, rhowch fanylion | |
| **A gafodd unrhyw droseddau eu cyflawni o fewn y 2 flynedd ddiwethaf?** | Os do, esboniwch y cyd-destun lle digwyddodd y drosedd e.e. ble, sut, pam a manylion unrhyw ddioddefwyr. (Parhewch dros y tudalen os bydd angen) | |

| Cwestiwn | Perthnasol<br>(Dileu yn ôl fel y bydd yn briodol) | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Beth yw agwedd yr unigolyn tuag at y drosedd/troseddau nawr?** | e.e. bod yn edifar/ teimlo cywilydd/ cyfiawnhau/ gwadu | |
| **A fydd yr unigolyn yn gwneud rhywbeth yn wahanol nawr?** | Os bydd, dwedwch beth | |
| **A yw amgylchiadau'r unigolyn wedi newid oddi ar yr euogfarn e.e. lleoliad/ffrindiau/partner/addysg?** | Os ydynt, dwedwch beth | |
| **A oes unrhyw amgylchiadau lliniarol e.e. anaeddfedrwydd, digwyddiad trawmatig ym mywyd yr unigolyn?** | Os oes, dwedwch beth | |
| **A yw'r materion a gafodd eu datgelu yn ffurfio unrhyw batrwm e.e. ailadrodd trosedd neu ailadrodd cymhelliad (dicter/ ariannol/cyffuriau/alcohol)** | Os ydynt, rhowch fanylion | |
| **A all yr ymgeisydd ddangos unrhyw ymdrechion i beidio ag aildroseddu, e.e. cwrs adsefydlu, cwrs rheoli dicter, help ar gyfer camddefnyddio alcohol/cyffuriau?** | Os gall, rhowch fanylion<br><br>(DS: mae cyflawni Gwasanaeth yn y Gymuned yn gosb ac nid yn rhaglen adsefydlu) | |

| Cwestiwn | Perthnasol<br>(Dileu yn ôl fel y bydd yn briodol) | Sylwadau |
|---|---|---|
| **A oes unrhyw gyswllt uniongyrchol gan y swydd â'r cyhoedd ac, os oes, pa mor fregus ydyn nhw?** | Os oes, rhowch fanylion | |
| **A oes modd gweithredu mesurau diogelu er mwyn lleihau/cael gwared ar unrhyw risg e.e. dim cyswllt heb ei oruchwylio?** | Os oes, rhowch fanylion | |
| **Pa oruchwyliaeth sydd ar gael a pha mor hygyrch yw'r oruchwyliaeth?** | Rhowch fanylion | |

| **Unrhyw wybodaeth bellach** |
|---|
| A oes unrhyw wybodaeth arall a fydd yn berthnasol i'r Asesiad Risg hwn o ran yr ymgeisydd, y gwaith ei hunan neu'r lleoliad/amgylchedd lle y bydd y gweithgareddau yn digwydd? |

| **Lefel y Risg:**<br>**Cwblhewch lefel y risg a wynebir drwy benodi/cyflogi'r unigolyn yn y swydd hon. Rhowch rhesymau.** | |
|---|---|
| **Risg Uchel** | |
| **Risg Canolig** | |
| **Risg Isel** | |
| **A yw'n bosib rhoi mesurau gwarchodol yn eu lle er mwyn i'r risg fod yn isel?** | |
| Amlinelliad o'r mesurau gwarchodol yn y **Cynllun Rheoli Risg** e.e. cwtogi ar fynediad i blant/ gwybodaeth; goruchwyliaeth ychwanegol; newidiadau dros dro i'r lleoliad gwaith; dargyfeirio dros dro y tasgau risg isel neu hyfforddiant. | |

**Cwblhawyd yr Asesiad Risg gan:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod y Rheolwr** | | **Dyddiad** | |
| **Enw'r Rheolwr (PRIFLYTHRENNAU)** | | | |

**Awdurdodwyd yr Asesiad Risg gan:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod yr Ymgynghorydd AD** | | **Dyddiad** | |
| **Enw'r Ymgynghorydd AD (PRIFLYTHRENNAU)** | | | |
| **Llofnod y Prif Lofnodydd** | | **Dyddiad** | |
| **Enw'r Prif Lofnodydd (PRIFLYTHRENNAU)** | | | |

| **Awdurdodwyd gan y Prif Lofnodydd** |
|---|
| A yw'r person hwn yn addas i ddechrau gweithio cyn i'r Dystysgrif GDG gael ei dychwelyd neu i barhau i weithio o dan yr amodau a gynigir uchod?<br><br>**Sylwadau:** (Rhesymau dros y penderfyniad) |